Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

# YSGOL GYFUN GŴYR - SWYDD PENNAETH

# O FEDI 2019

Ysgol Grŵp 6 (Grŵp 7 o Fedi 2021)

Gradd Cyflog: L28 - L34 (£77,613-£89,900)

972 disgybl ar y gofrestr (Medi 2018). Yn ogystal, addysgir dros 50 o fyfyrwyr ychwanegol Bryn Tawe fel rhan o Bartneriaeth Chweched Dosbarth Gŵyr-Bryn Tawe ar y safle'n flynyddol.

Yn dilyn cyfnod interim â phennaeth gweithredol wrth y llyw, mae'r Llywodraethwyr nawr yn awyddus i benodi pennaeth parhaol i arwain yr ysgol o Fedi 2019. Dymuna'r Llywodraethwyr benodi arweinydd profiadol a deallus, sydd a'r weledigaeth, y gallu a'r ymroddiad i arwain Ysgol Gyfun Gŵyr yn feistrolgar am gyfnod pellach yn ei hanes. Disgwylir i ddeilydd y swydd gynnal y safonau eithriadol sydd eisoes wedi eu sefydlu yn ogystal â'r ethos teuluol, parchus a chynhwysol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Y mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn ysgol 11-18 sy'n cyflawni safonau a chanlyniadau eithriadol ym mhob un o'r meysydd allweddol yn flynyddol. Y mae gan Ysgol Gyfun Gŵyr enw da a record o gyflawniad rhagorol.

Am becyn gwybodaeth a ffurflen gais, nodwch yr amgaeedig. Dilynwch y cysylltiadau canlynol i wylio'r ddogfennaeth berthnasol:

Prosbectws yr Ysgol 2018/19
http://www.yggwyr.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/YGG-Prospectus-2019.pdf
Prosbectws Partneriaeth y Chweched 2018/19
http://www.yggwyr.org.uk/prosb2019/mobile/index.html
Adroddiad Blynyddol 2018
http://www.yggwyr.org.uk/wp-content/uploads/2019/02/Adroddiad-Blynyddol-2018-Small.pdf

Pennaeth Gweithredol : Mr Dafydd Jenkins BA.
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion
Schools Curriculum Award
HEARTBEAT AWARD GWOBR CURIAD CALON
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

Dyddiad Cau: 8 Mawrth 2019

Ffurflenni cais i'w danfon at Ms Mari Jones, Clerc y Corff Llywodraethol, at y cyfeiriad e-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk neu fesul copi caled at gyfeiriad yr ysgol: Ysgol Gyfun Gŵyr, Stryd Talbot, Tre-gŵyr, ABERTAWE. SA4 8LH.